Cymru Yfory
Tomorrow's Wales

Papur 1 - Y Refferendwm a Phwerau'r Cynulliad: Y Cefndir

1 Datganoli Gweinyddol

O ddechrau'r 20fed ganrif fe gafodd Cymru yn gynyddol ei thrin yn wahanol i bwrpas llywodraethu:

- **1906-1918**
  Sefydlu adrannau Cymreig o fewn gweinyddiaethau Addysg, Amaeth, Yswiriant ac Iechyd
- **1944-51**
  Sefydlu Cyngor Ymgynghorol dros Gymru a Mynwy
- **1951-1964**
  Creu Gweinidog dros Faterion Cymreig a chynyddu ei statws a'i bwerau yn raddol
- **1964**
  Creu swydd Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru a'r Swyddfa Gymreig, yn gyfrifol am weinyddu nifer o feysydd polisi
- **1968-1993**
  Trosglwyddo cyfrifoldeb am ragor o feysydd polisi a sefydlu cyrff megis Asiantaeth Ddatblygu Cymru a Chyngorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch

2 Datganoli Gweithredol

Cafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei sefydlu dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn dilyn Refferendwm yn 1997, ac fe'i agorwyd yn swyddogol ym Mehefin 1999:

- 60 o Aelodau Cynulliad: 40 aelod etholaeth ac 20 'aelod ychwanegol' yn cynrychioli rhanbarthau ac wedi'u hethol drwy bleidlais gyfrannol
- dim pwerau deddfu sylfaenol, ond yr hawl i addasu rhyw gymaint ar ddeddfau San Steffan drwy ddeddfwriaeth isradd
- Y Cynulliad yn 'gorff corfforaethol' i gymryd penderfyniadau ar y cyd, ond darpariaeth i'r pwerau gael eu trosglwyddo i Brif Ysgrifennydd a chanddo'r hawl i ffurfio Cabinet o Ysgrifenyddion yn gyfrifol am wahanol feysydd polisi
- Rhodri Morgan yn Chwefror 2000 yn cyflwyno'r term 'Gweinidog' yn lle 'Ysgrifennydd' a swydd 'Prif Weinidog Cymru' yn dod i fodolaeth

3 Comisiwn Richard

- Ei sefydlu gan Lywodraeth glymblaid Llafur – Democrat Rhyddfrydol 2000 i ystyried Pwerau a Threfniadau Etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol
- Cyhoeddi adroddiad yn 2004 yn argymell:

    - Rhoi pwerau deddfu cynradd i'r Cynulliad ym meysydd ei gyfrifoldeb
    - Cynyddu nifer yr aelodau i 80 a gostwng nifer yr ASau Cymreig
    - Cyflwyno'r bleidlais sengl drosglwyddadwy mewn etholaethau aml-aelod

4 Datganoli Deddfwriaethol

Ymateb Llywodraeth San Steffan i adroddiad Comisiwn Richard oedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Ddeddf honno yn:

- cadw nifer yr AC ar 60;
- yn gwahanu'n statudol bwerau'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad;
- o dan Ran 3 yn galluogi'r Cynulliad i basio deddfau cynradd (Mesurau'r Cynulliad) os cyflwynir yr hawl i wneud hynny gan Senedd San Steffan (gweler dalen 4 yn y pecyn hwn);
- o dan Ran 4 yn darparu ar gyfer rhoi'r pwer i ddeddfu i'r Cynulliad mewn 20 o feysydd polisi ac;
- yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm i alluogi'r pwer yna i ddod i rym.

ON: Diffinio Meysydd Cyfrifoldeb y Cynulliad

Mae'r ffordd y mae meysydd cyfrifoldeb y Cynulliad yn cael eu diffinio yn wahanol i'r Alban:

- Mae gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb am y meysydd polisi a gafodd eu <u>trosglwyddo'n benodol iddo</u> dros gyfnod o amser – 'model trosglwyddo swyddogaethau'

- Mae gan Senedd yr Alban gyfrifoldeb am bob <u>maes polisi ond y rhai sy'n</u> <u>benodol yn cael eu cadw nôl</u> yn San Steffan – 'model pwerau a gedwir yn ôl'

Dyw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ddim yn newid hyn.